

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Dilynol lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro, Practis  
Deintyddol High Street, y  
Bont-faen**

Dyddiad Arolygu: 14 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

|    |   |    |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                           | 2  |
| 2. | Cyd-destun.....                           | 3  |
| 3. | Crynodeb .....                            | 4  |
| 4. | Canfyddiadau .....                        | 6  |
|    | Ansawdd Profiad y Claf .....              | 6  |
|    | Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....  | 8  |
|    | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... | 16 |
| 5. | Y Camau Nesaf.....                        | 18 |
| 6. | Methodoleg .....                          | 19 |
|    | Atodiad A.....                            | 21 |

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd ym Mhractis Deintyddol High Street, sydd wedi'i leoli yn 57 High Street, y Bont-faen, ar 14 Tachwedd 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol High Street yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol High Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn nhref marchnad y Bont-faen. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Practis Deintyddol High Street yn bractis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, er bod mwy o bwyslais ar y ddarpariaeth o ofal deintyddol preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, a rheolwr practis sydd hefyd yn gweithio fel derbynydd.

### 3. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolygiad dilynol cyffredin a gwblhawyd gan AGIC ar 14 Tachwedd 2016 ym Mhractis Deintyddol High Street, y Bontfaen, i wirio bod meysydd i'w gwella a amlygwyd yn arolygiad blaenorol AGIC (15 Tachwedd 2015) wedi cael eu cwblhau.

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ddarpariaeth o wybodaeth i gleifion o ran gweithdrefnau pryderon (cwynion) deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat. Gwelsom hefyd fod taflenni gwybodaeth am y practis ar gael i gleifion a oedd yn adlewyrchu'r ddau wahanol gynllun gofal a thriniaeth ddeintyddol sydd ar gael yn y practis.

Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod rhai gwelliannau wedi eu gwneud o ran y ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol ers ein harolygiad blaenorol. Roedd y gwelliannau hynny yn ymwneud yn benodol â'r amgylchedd yn un o'r ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol, rhywfaint o hyfforddiant staff, a phrynu offer sterileiddio newydd.

Fodd bynnag, prin oedd y cynnydd a wnaed o ran archwiliadau wedi'u cofnodi yn ymwneud ag offer glanhau a sterileiddio, cyffuriau brys, a chynnwys gofynnol cofnodion cleifion. Hefyd, nodwyd materion newydd/eraill yn ymwneud ag elfennau o'r broses ddadheintio a'r defnydd diogel o offer pelydr-X yn yr arolygiad AGIC hwn.

Gwnaed gwelliannau ers ein harolygiad diwethaf o ran cynnal cofnodion imiwneiddio staff ac ymdrechion i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau i gynorthwyo'r tîm deintyddol yn ei waith.

Fodd bynnag, roedd angen gwelliant pellach o ran ymsefydlu staff, darparu hyfforddiant staff perthnasol a rheolaidd a threfniadau sicrhau ansawdd yn gyffredinol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Mynegodd cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bodlonrwydd gyda phob agwedd ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd
- Roedd offer digonol yn y ddwy ystafell driniaeth ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Roedd y tîm deintyddol wedi gweithio yn y practis ers rhai blynnyddoedd, a oedd yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd iddynt

Gellir gweld gwelliannau sydd eu hangen i feysydd rhedeg a rheoli'r practis trwy gydol yr adroddiad hwn, ac yn Atodiad A.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Canfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn fod cynnydd wedi cael ei wneud o ran arddangos gwybodaeth am weithdrefnau pryderon (cwynion) deintyddiaeth y GIG a deintyddiaeth breifat. Gwelsom hefyd fod taflenni gwybodaeth am y practis ar gael i gleifion a oedd yn adlewyrchu'r ddau wahanol gynllun gofal a thriniaeth ddeintyddol sydd ar gael yn y practis.

Fodd bynnag, roedd angen i'r practis wella'r deunydd hybu iechyd sydd ar gael o hyd, i gynorthwyo i hybu iechyd deintyddol a geneuol cleifion rhwng ymweliadau.

Nid archwiliwyd ansawdd profiad y claf yn llawn yn yr arolygiad dilynol hwn. Roedd hyn gan fod AGIC yn bwriadu gwirio fod y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn arolygiad blaenorol AGIC (15 Tachwedd 2015) wedi eu cwblhau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*'Gwybodaeth yn cael ei hesbonio mewn ffordd ddealladwy bob amser'*

*'Gallaf gael apwyntiad pan fydd angen un arnaf. Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a chefnogol'*

*'Wedi cael y cwртеisi a'r cymorth mwyaf bob amser gan [y deintydd] a'r holl staff'*

### **Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

#### *Cadw'n iach*

Canfuwyd gennym mai prin oedd y deunydd hybu iechyd a oedd ar gael i gleifion yn yr ystafell aros. Codwyd y mater hwn yn ein harolygiad blaenorol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r practis felly ofyn i gleifion pa fath o wybodaeth allai fod o gymorth iddynt (a pha un a oes angen y wybodaeth honno yn Gymraeg).

#### *Gofal unigol*

Yn ystod ymweliad blaenorol AGIC, hysbyswyd y practis am yr angen i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur am yr holl wasanaethau a ddarperir a'r



gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy ddatblygu taflenni gwybodaeth cynhwysfawr i gleifion. Gwelsom yn ystod yr ymweliad hwn fod dau fath o daflen gwybodaeth i gleifion i adlewyrchu'r gwahanol gynlluniau tâl deintyddol sydd ar gael yn y practis. Roedd angen mân-ddiwygiad i un o'r taflenni hynny i adlewyrchu elfen o gostau cleifion ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gywir. Fodd bynnag, cafodd y broblem hon ei datrys yn dilyn ein hymweliad.

Yn ystod ein hymweliad blaenorol, nododd tîm AGIC fod angen diweddarau gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod gan gleifion fynediad at wybodaeth eglur a llawn am sut i godi pryderon am eu gofal neu driniaeth ddeintyddol gyda'r practis a chyrff proffesiynol perthnasol eraill. Edrychwyd ar y wybodaeth am bryderon a oedd wedi ei harddangos yn y dderbynfa felly a chanfuwyd gennym fod y practis wedi diwygio'r poster yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, roedd dal i fod angen diweddarau rhywfaint ar y polisi pryderon/cwynion a welwyd. Tynnwyd sylw'r tîm deintyddol at hyn.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

Canfuwyd gennym fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran darparu gofal diogel ac effeithiol ers ein harolygiad blaenorol. Roedd y gwelliannau hynny yn ymwneud yn benodol â'r amgylchedd yn un o'r ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol, rhywfaint o hyfforddiant staff, a phrynu offer sterileiddio newydd. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gan y practis fynediad at ddŵr distyll ar gyfer rinsio offerynnau deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Fodd bynnag, prin oedd y cynnydd a wnaed o ran archwiliadau wedi'u cofnodi yn ymwneud ag offer glanhau a sterileiddio, cyffuriau brys, a chynnwys gofynnol cofnodion cleifion. Hefyd, nodwyd materion newydd/eraill yn ymwneud ag elfennau o'r broses ddadheintio a defnydd diogel o offer pelydr-X yn yr arolygiad AGIC hwn.

**Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

### ***Cyfleusterau clinigol***

Yn ystod ein harolygiad ym mis Tachwedd 2015, nid oeddem yn gallu darganfod a oedd offer cludadwy wedi cael ei brofi fel ffordd o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd hyn oherwydd absenoldeb cofnodion yn hyn o beth.

Ers hynny, roedd tîm y practis wedi trefnu i brawf dyfeisiau cludadwy gael ei gynnal. Fodd bynnag, ni roddwyd cadarnhad ysgrifenedig i ni o hynny pan ofynnwyd amdano yn yr arolygiad hwn. Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd yr angen i ailgynnal y prawf gan nad oedd y contractwr gwreiddiol y gofynnwyd iddo wneud y gwaith wedi ei hyfforddi i brofi'r gwifrau trydanol yn y safle ac roedd y practis eisiau i'r ddau brawf gael eu cynnal ar yr un pryd. Hysbyswyd partneriaid y practis felly am yr angen i ddarparu'r tystysgrifau perthnasol i AGIC cyn gynted â phosibl.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o brawf dyfeisiau cludadwy ac archwiliad o'r system gwifrau trydanol ar y safle, cyn gynted â phosibl.***

Roedd yn ofynnol cynt i'r practis gwblhau archwiliadau rheolaidd o'r offer cywasgu ar y safle, yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrhydd. Canfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn bod y practis wedi cysylltu â chontractwr allanol i

gynnal y gwaith cynnal a chadw perthnasol. Cadarnhaodd y contractwr fod yr offer o fath nad oes angen ei archwilio'n feunyddiol. Cefnogwyd hyn gan ddogfennau priodol.

Yn yr arolygiad diwethaf, hysbyswyd y practis am yr angen i wneud trefniadau priodol ar gyfer cael gwared ar gynhyrchion meddyginiaeth sydd heb eu defnyddio. Ers yr arolygiad diwethaf, canfuwyd gennym fod y tîm wedi cysylltu â fferylllydd lleol, a oedd yn cyflawni'r broses hon erbyn hyn, yn ogystal â chynnig cyngor cyffredinol yn ôl y gofyn.

Gwelwyd yn ystod ein harolygiad blaenorol fod angen sylw ar y seliau rhwng y llawr a'r wal yn yr ystafell driniaeth ym mlaen y safle. Yn yr ymweliad hwn, roeddem yn gallu cadarnhau bod y llawr wedi cael ei newid. Roedd hyn yn cynorthwyo'r staff wrth lanhau'r ardal ac yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o lwch/bacteria yn casglu.

## **Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

### *Dadheintio*

Hysbyswyd y practis yn ystod yr arolygiad diwethaf am yr angen i gyfeirio at ganllawiau gweithgynhyrchwyr ar y defnydd o offer sterileiddio ac i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer pob offeryn sy'n cael ei ddefnyddio (nid teclynnau llaw deintyddol yn unig). Hysbyswyd y practis hefyd am yr angen i gynnal archwiliadau beunyddiol o ran gweithrediad yr offer sterileiddio yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwyr.

Canfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn fod y practis wedi prynu peiriant aerglos (Math B) newydd, a gomisiynwyd yn ystod mis Medi 2016.

Er bod cofnodwr data ar waith, a oedd yn cynorthwyo wrth ganfod a oedd yr offer yn gweithio'n iawn, ni allai'r tîm ddarparu unrhyw dystiolaeth i ni fod data wedi cael ei lawrlwytho neu ei wirio. Hefyd, nid oedd y 'llyfrau log' a oedd ar waith yn cynnig unrhyw wybodaeth ddefnyddiol wedi'i chofnodi o ran sut yr oedd cylchoedd sterileiddio yn cael eu dilysu neu eu profi'n gyfnodol, fel sy'n ofynnol.

Yn ystod yr ymweliad hwn, nid oedd unrhyw gofnodion ar waith i gadarnhau bod profion ffoil a phrotein (o ran y glanhawr uwchsain) yn cael eu cynnal, yn dilyn cyfnodau a nodwyd yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, Diwygiad 1. Nid oedd yn bosibl gwirio'r hyn a ddywedodd y staff wrthym yn hyn o beth felly.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu gwybodaeth fanwl i AGIC er mwyn dangos bod archwiliadau dyddiol/wythnosol/eraill addas wedi'u cofnodi***

***ar waith, o ran offer a ddefnyddir yn ystod y broses glanhau a dadheintio offerynnau.***

Nid oedd pecynnau nifer fawr o offerynnau wedi'u sterileiddio wedi eu dyddio i ddynodi pryd y cawsant eu lapio. Fe'n hysbyswyd bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer offerynnau a ddefnyddir yn aml yn gyffredinol. Er gwaethaf hyn, ailbwysleisiwyd yr angen i system gael ei sefydlu lle mae offerynnau'n cael eu stampio fel sy'n ofynnol o dan bwynt 2.4k canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis ddisgrifio'r system a roddwyd ar waith i sicrhau bod y dyddiad sterileiddio yn cael ei nodi ar becynnau offerynnau deintyddol bob amser. Dylid nodi dyddiad terfyn ar offerynnau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml hefyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn eglur ynghylch pryd dylid defnyddio offerynnau.***

Nodwyd gennym yn yr arolygiad AGIC blaenorol yr angen i'r practis sicrhau bod dŵr wedi'i ddistyllu'n llawn ar gael ar gyfer rinsio offerynnau deintyddol yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Roeddem yn gallu cadarnhau yn yr arolygiad hwn bod y practis wedi rhoi sylw i'r mater.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn ystod mis Hydref 2016 ac fe'n hysbyswyd iddo gael ei gwblhau; fodd bynnag, roedd rhannau o'r archwiliad yn wag. Hefyd, nid oedd unrhyw gynllun gwella wedi cael ei ddatblygu i ddangos pa gamau oedd wedi eu cynllunio, neu eu cwblhau. Gwelsom yn ystod yr arolygiad diwethaf fod y practis wedi cwblhau fersiwn Seisnig o archwiliad dadheintio. Hysbyswyd y tîm felly i gwblhau'r archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru'n llawn cyn gynted â phosibl ac i'w ddilyn gan gynllun gwella eglur.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Hysbysir y practis am yr angen i gwblhau archwiliad dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn llawn a rhoi manylion y camau a gymerwyd/i'w cymryd i AGIC.***

**Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

*Cyffuriau ac offer brys*

Yn yr arolygiad blaenorol, hysbyswyd y tîm deintyddol am yr angen i archwilio'r holl offer brys yn wythnosol, i sicrhau ei fod yn barod ac yn ddiogel i'w ddefnyddio bob amser. Roedd hefyd yn ofynnol i'r practis gael gafael ar fatri newydd ar gyfer y diffibriliwr. Roeddem yn gallu cadarnhau yn yr arolygiad hwn y cafwyd gafael ar fatri. Gwelsom hefyd restr ar waith i wirio rhywfaint o'r offer brys yn wythnosol. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith o hyd i wirio

cyffuriau brys yn wythnosol, yn unol â chanllawiau dadebru cyfredol y DU ar gyfer practisau deintyddol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

### ***Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyffuriau brys yn cael eu gwirio'n wythnosol i AGIC.***

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn cadarnhau bod rhai aelodau o dîm y practis wedi cwblhau hyfforddiant diweddar ar y defnydd o gymorth cyntaf. Roedd archwiliadau ar waith hefyd i sicrhau bod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei ddisodli yn ôl y gofyn.

### **Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

#### *Diogelu*

Roeddem yn gallu cadarnhau y darparwyd hyfforddiant i'r tîm deintyddol ar bynciau diogelu plant ac oedolion. Fodd bynnag, roedd polisïau'r practis yn seiliedig ar ganllawiau a oedd yn berthnasol yn Lloegr yn hytrach na Chymru. Tynnwyd sylw partneriaid y practis at y mater hwn am yr ail waith, gan ei bod yn bwysig sicrhau bod gan staff fynediad at wybodaeth am fanylion cyswllt perthnasol a chyfredol. Mae'r angen am bolisïau cyfredol a chadarn yn y practis hwn wedi arwain at welliant ffurfiol; ceir cyfeiriad pellach yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.

### **Materion newydd a nodwyd yn yr arolygiad hwn:**

#### *Dadheintio*

O ystyried ein canfyddiadau yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom sut yr oedd y staff yn gweithio yn yr ystafell ddadheintio ac roeddem yn gallu cadarnhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud i wahanu offerynnau wedi'u defnyddio ac offerynnau glân. Fodd bynnag, nid oedd cynllun yr ystafell yn sicrhau'r gwahaniad gorau posibl o fannau budr a glân. Yn benodol, roedd cwpwrdd uwchben y man glân lle'r oedd eitemau llychlyd fel argraffau deintyddol a bocsys o eitemau deintyddol. Defnyddiwyd y cwpwrdd yn aml gan fod pecynnau offer yn cael eu storio yn y man hwn hefyd. Nid oedd unrhyw fan gwaith i'r staff dynnu offerynnau wedi'u sterileiddio o'r peiriant aerglos; roedd y drws yn agor tuag allan lle nad oedd unrhyw arwyneb gwaith o gwbl. Roedd y peiriant aerglos hefyd wedi'i leoli ar ochr 'fudr' yr ystafell, wrth ochr y glanhawr uwchsain – man a oedd yn anniben iawn. Hefyd:

- Ychydig iawn o le oedd ar gael i'r staff roi offerynnau mewn pecynnau ar ôl eu sterileiddio yn y man glanhau dynodedig

- Gwelwyd y staff yn gwisgo menig wrth drin offerynnau, ond ni welwyd unrhyw offer diogelwch personol arall yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddadheintio yn ystod ein hymweliad
- Roedd angen ystyried llif awyr yn yr ystafell ddadheintio ymhellach gan fod y staff yn dibynnu ar awyriad naturiol trwy ffenestr agored. Roedd y llif awyr presennol o'r man 'budr' i'r man 'glân', sy'n creu'r perygl o ailheintio offerynnau
- Nid oedd basn golchi dwylo pwrpasol ar wahân wedi ei nodi yn yr ystafell ddadheintio
- Trafodwyd yr uchod i gyd gyda phartneriaid y practis. Er eu bod yn awyddus i wneud gwelliannau, roedd pryder o hyd pam na ofynnwyd am gyngor gan bobl berthnasol ar gynllun yr ystafell ddadheintio

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i wneud gwelliannau i gynllun, llif awyr a defnydd o offer diogelwch personol yn yr ystafell ddadheintio bwrpasol.***

Nid oedd gan y practis gopi o ganllawiau cyfredol Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Yn hytrach, roedd ganddo fersiwn Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) flaenorol (2011). Roedd hyn yn golygu nad oedd gan y tîm staff fynediad at ganllawiau Cymru gyfan perthnasol cyfredol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau a dadheintio. Rhoddodd y tîm arolygu fanylion y canllawiau cywir i gael gafael arnynt, cyn gynted â phosibl, i'r practis felly.

Dynododd sgysiau gyda dwy nyrs ddeintyddol eu bod yn deall yr angen am ddulliau cadarn a chyson o lanhau a sterileiddio offerynnau. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant ar bwnc craidd dadheintio ers cryn amser. Yng ngoleuni ein canfyddiadau yn yr arolygiad hwn, tynnwyd sylw'r tîm at y mater hwn.

Roedd un o dîm y practis wedi datblygu canllawiau ar gyfer y staff i'w cynorthwyo i gwblhau gweithdrefnau 'dechrau'r dydd' yr ystafell ddadheintio, ond dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi gweld y rheini. Nid oedd canllawiau o'r fath wedi eu harddangos ar y safle chwaith.

### **Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

#### *Offer/dogfennau/hyfforddiant staff radiograffig (pelydr-X)*

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, nid oedd rheolau (arwyddion) lleol yn bresennol yn yr ystafelloedd triniaeth fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym yn ystod yr ymweliad hwn bod rheolau (lleol) diogelwch wedi eu harddangos yn y ddwy ystafell driniaeth. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff fynediad at ganllaw eglur ar sut i ddiogelu cleifion a'u hunain pan fo offer pelydr-X yn cael

ei ddefnyddio. Dangosodd y staff hefyd y system rybudd sydd ar waith i sicrhau nad yw pobl yn dod i mewn i'r ystafelloedd triniaeth pan fydd delweddau pelydr-X yn cael eu cymryd. Gwelsom arwyddion ymbelydredd pellach ar ddrysau'r ystafelloedd triniaeth.

Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y practis wedi bod mewn cysylltiad â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn yr arolygiad blaenorol, fel y cynghorwyd. Roedd hyn i roi gwybod iddynt fod ymbelydredd ïoneiddio (cyfleusterau pelydr-X) yn cael ei ddefnyddio ar y safle, fel sy'n ofynnol.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn dal i fod yn anghyflawn. Roedd y ffeil hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â pherchennog blaenorol y practis, a ddylai fod wedi cael ei harchifo gan nad oedd yn berthnasol mwyach. Roeddem yn gallu cadarnhau bod Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd penodol ar waith (trwy gontract ysgrifenedig). Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi bod mewn cysylltiad â'r cynghorydd ers cryn amser. Cynghorwyd felly bod cyswllt yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl i gael cyngor ar gwblhau'r wybodaeth yn y ffeil diogelwch ymbelydredd (yn enwedig o ran offer a ddefnyddir a gweithdrefnau i staff eu dilyn). Mae hyn yn unol â deddfwriaeth RhŶI(DM).

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth RhŶI(DM).***

#### ***Cofnodion cleifion***

Nodwyd nifer o welliannau yn yr arolygiad blaenorol o ran cynnwys cofnodion cleifion. Yn yr arolygiad hwn, archwiliwyd naw o gofnodion gennym (pump yn ymwneud ag un deintydd a phedwar yn ymwneud â'r llall). Ychydig neu ddim gwelliant a nodwyd. Roedd hyn gan yr ystyriwyd fod cynnwys pob cofnod a welwyd yn yr arolygiad hwn yn annigonol o ran un, neu fwy, o'r canlynol:

- Manylion cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Ffioedd deintyddol a godwyd
- Dim tystiolaeth y darparwyd cynllun triniaeth i gleifion
- Nid oedd cofnodion y GIG yn cyfeirio at amserlenni ailalw cleifion yn unol â chanllawiau NICE
- Nid oedd digon o le o hyd ar gyfer disgrifiad llawn o ymgynghoriadau a thriniaeth ac nid oes gan y practis unrhyw fodd o gofnodi'n

electronig. Amlygodd sgysiau gyda'r partneriaid fod y sefyllfa yn annhebygol o newid yn y dyfodol gan fod y costau'n rhy fawr

- Nid oedd hanesion meddygol wedi eu cydlofnodi, eu diweddarau nac yn bresennol bob amser
- Nid oedd un cofnod yn cynnig unrhyw dystiolaeth o siartio sail llawn
- Roedd ansawdd nifer o ddelweddau pelydr-X cleifion yn wael ac felly o fawr ddim defnydd i gynorthwyo'r deintyddion i wneud penderfyniadau am ofal deintyddol y cleifion dan sylw yn y dyfodol

Amlygodd trafodaethau gyda thîm y practis y problemau yr oeddent yn eu cael yn cynnal cofnodion cleifion i'r safon ofynnol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oeddent ar gyfrifiadur a'r ddibyniaeth ar ddefnyddio cofnodion papur yn unig.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi disgrifiad i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y safonau iechyd a gofal a chanllawiau proffesiynol perthnasol.***

Yn arolygiad blaenorol AGIC, hysbyswyd y practis am yr angen i sefydlu a ffurfioli system o archwilio ac adolygu cymheiriaid reolaidd, fel y gallai'r tîm staff nodi meysydd gwasanaeth y mae angen eu gwella yn haws. Yn yr arolygiad hwn, nid oedd rhaglen barhaus wedi ei chytuno o weithgarwch archwilio o hyd (er enghraifft, o ran cofnodion cleifion, archwiliadau pelydr-X, atal a rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, a'r amgylchedd).

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd ar waith i gynorthwyo'r practis i wneud gwelliannau parhaus i wasanaethau a ddarperir i gleifion.***

**Materion newydd a nodwyd yn yr arolygiad hwn:**

#### **Offer a chofnodion pelydr-X**

- Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw ganllawiau ysgrifenedig ar gael i'r staff o ran amllder neu'r broses ar gyfer newid hylifau datblygu delweddau pelydr-X (a mesurau diogelwch cysylltiedig). Canfuwyd gennym hefyd nad oedd gan unrhyw un gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am hyn, felly roedd newid hylif yn digwydd ar sail ad hoc. Roedd hyn yn amlwg iawn wedi arwain at ansawdd gwael y delweddau pelydr-X a welwyd mewn sampl o gofnodion cleifion. Tynnwyd sylw partneriaid y practis at hyn ac roeddent yn barod i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd



bynag, ni allent esbonio pam nad oedd trefniadau o'r fath ar waith eisoes.

- Yn yr un modd, gwelsom gofnodion archwiliad pelydr-X a gwblhawyd ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnig manylion digonol am gofnodion cleifion a welwyd, nac unrhyw awgrym sut yr oedd y sampl cofnodion wedi cael ei dewis. Roedd yn dynodi bod 75% o'r delweddau pelydr-X yr edrychwyd arnynt yn anfoddhaol o ran ansawdd/gradd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynllun gweithredu ar waith i wneud neu fonitro gwelliannau sydd eu hangen, i gefnogi penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod hylifau datblygu delweddau pelydr-X yn cael eu newid yn rheolaidd trwy ddefnyddio canllawiau y gall y staff eu deall.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi manylion i AGIC hefyd am y camau a gymerwyd i sicrhau bod rhaglen reolaidd o archwiliadau pelydr-X – ansawdd a gradd – yn cael ei sefydlu yn y practis.***

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant RhYİ(DM) i staff perthnasol yn yr arolygiad hwn, er i'r unigolion dan sylw ddweud eu bod yn 'gyfredol' yn hyn o beth. Gofynnwyd iddynt felly wneud y wybodaeth hon ar gael i AGIC cyn gynted â phosibl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis roi gwybodaeth i AGIC sy'n dilysu bod staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth RhYİ(DM).***

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

Roedd y ddau brif ddeintydd sy'n gweithio yn y practis yn dal i fod yn gyfrifol am redeg, rheoli a gweithredu'r gwasanaeth yn gyffredinol o ddydd i ddydd. Cânt eu cynorthwyo gan reolwr practis sydd hefyd yn gweithio yn y dderbynfa a thîm deintyddol bach sefydledig.

Canfuwyd gennym fod proses wedi cael ei datblygu'n ddiweddar i ddarparu gwerthusiad blynyddol i'r staff i gynorthwyo wrth sicrhau bod y tîm deintyddol yn dal i fod yn gymwys ac yn hyderus yn eu gwaith.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd hefyd ers ein harolygiad blaenorol o ran datblygu systemau priodol ar gyfer mesur safonau ansawdd a diogelwch hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol i gleifion. Roedd y gwelliannau'n ymwneud yn benodol â chynnal cofnodion imiwneiddio staff ac ymdrechion i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau i gynorthwyo'r tîm deintyddol yn ei waith.

Fodd bynnag, roedd angen gwelliant pellach o ran ymsefydlu staff, darparu hyfforddiant staff perthnasol a rheolaidd, a threfniadau sicrhau ansawdd yn gyffredinol.

### **Materion yn ymwneud ag arolygiad blaenorol AGIC – Tachwedd 2015:**

#### *Hyfforddiant staff*

Canfuwyd gennym nad oedd y practis wedi datblygu rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd neu dros dro, fel sy'n ofynnol. Datgelodd trafodaeth gyda'r deintyddion rywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am yr agwedd hon ar y gwasanaeth. Er nad oedd y practis wedi cyflogi unrhyw staff newydd ers yr arolygiad blaenorol, nac wedi defnyddio personél asiantaeth, roedd cynllun gwella'r practis dyddiedig 8 Ionawr 2016 yn dynodi bod y mater hwn wedi cael sylw llawn.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi copi i AGIC o'r rhaglen sefydlu a ddatblygwyd i gynorthwyo unrhyw aelodau staff newydd yn y dyfodol neu staff asiantaeth a allai weithio ar y safle.***

Roedd yn amlwg o edrych ar sampl o gofnodion hyfforddi nad oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar elfennau perthnasol o'u swyddogaethau/cyfrifoldebau (er enghraifft, dadheintio, pan oedd delweddau pelydr-X yn cael eu cymryd, datblygu delweddau pelydr-X).

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis gadarnhau bod hyfforddiant dadheintio wedi ei drefnu ar gyfer yr holl staff perthnasol. Dylid darparu sesiynau hyfforddi***

**hefyd o ran pynciau eraill sy'n berthnasol i swyddogaethau a chyfrifoldebau staff. Mae hyn i ddangos bod y staff yn cael eu cynorthwyo gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dylid gwneud y dyddiadau ar gael i AGIC.**

*Gwerthuso staff*

Gwelsom fod dwy nyrs ddeintyddol wedi derbyn math o werthusiad yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd hwn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelodau eraill o'r tîm wedi derbyn gwerthusiad. Codwyd absenoldeb trefniadau o'r fath yn ein harolygiad diwethaf.

*Trefniadau llywodraethu*

Yn ein harolygiad blaenorol, amlygodd tîm AGIC yr angen am welliannau i'r systemau, prosesau a pholisïau gweithredol sydd ar waith i sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith. Yn yr arolygiad hwn, roedd angen diweddarau mwyafrif y polisïau a welwyd o hyd, neu roeddent wedi cael eu lawrlwytho o wefannau yn Lloegr (a heb eu diwygio i adlewyrchu arfer lleol neu ganllawiau Cymru gyfan). Roedd anghysondeb hefyd o ran dyddiadau pan ddatblygwyd polisïau, pryd yr oedd angen eu diwygio, a chynnwys llofnod yr awdur.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Hysbysir y practis am yr angen i hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod gan y staff fynediad at amrywiaeth o bolisïau perthnasol a chyfredol i lywio eu gwaith o ddydd i ddydd.***

Gwelsom fod cofnodion imiwneiddio ar gyfer yr holl staff yn cael eu cynnal erbyn hyn. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu cleifion a staff.

**Materion newydd a nodwyd yn yr arolygiad hwn:**

*Trefniadau rheoli*

Datgelodd sgysiau gydag aelodau o'r tîm deintyddol fod dyletswyddau staff yn cael eu cwblhau yn seiliedig ar dasgau a gyflawnwyd ar sail hanesyddol. Efallai felly yr hoffai'r practis ystyried sut y gellid dirprwyo dyletswyddau i aelodau staff yn y dyfodol ar sail feunyddiol, er mwyn sicrhau bod tasgau allweddol yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol High Street yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>1</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>2</sup> Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol High Street**

**Dyddiad yr Arolygiad: 14 Tachwedd 2016**

| Tudalen                                    | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Rheoliad / Safon   | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--|---|--|---------------------|------------------|----------|
| <b>Ansawdd Profiad y Claf</b>              |   |  |                     |                  |          |
|  | Ni nodwyd unrhyw welliannau newydd yn yr arolygiad hwn.   |  |                     |                  |          |
| <b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b> |   |  |                     |                  |          |
| 8  | Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o brawf dyfeisiau cludadwy ac archwiliad o'r system gwifrau trydanol ar y safle, cyn gynted â phosibl. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 |                     |                  |          |

| Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Rheoliad / Safon   | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------|---|--|---------------------|------------------|----------|
| 9/10    | Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu gwybodaeth fanwl i AGIC er mwyn dangos bod archwiliadau dyddiol/wythnosol/eraill addas wedi'u cofnodi ar waith, o ran offer a ddefnyddir yn ystod y broses glanhau a dadheintio offerynnau.  | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14 (3); Safonau Iechyd a Gofal 2.4 a 2.9 |                     |                  |          |
| 10      | Mae'n ofynnol i'r practis ddisgrifio'r system a roddwyd ar waith i sicrhau bod y dyddiad sterileiddio yn cael ei nodi ar becynnau offerynnau deintyddol bob amser. Dylid nodi dyddiad terfyn ar offerynnau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml hefyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn eglur ynghylch pryd dylid defnyddio offerynnau. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 1.24          |                     |                  |          |
| 10      | Hysbysir y practis am yr angen i gwblhau archwiliad dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn llawn a rhoi manylion y camau a gymerwyd/i'w cymryd i AGIC.   | Safon Iechyd a Gofal 3.1   |                     |                  |          |
| 11      | Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu  | Safonau  |                     |                  |          |



| Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Rheoliad / Safon   | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------|--|--|---------------------|------------------|----------|
|         | manylion y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyffuriau brys yn cael eu gwirio'n wythnosol i AGIC.   | Iechyd a Gofal 2.6;<br>Canllawiau dadebru'r DU ar gyfer practisau deintyddol |                     |                  |          |
| 12      | Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i wneud gwelliannau i gynllun, llif awyr a'r defnydd o offer diogelwch personol yn yr ystafell ddadheintio bwrpasol.                   | Safonau Iechyd a Gofal 2.4, 3.1 a 3.3  |                     |                  |          |
| 13      | Mae'n rhaid i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth RhYİ(DM).               | Safon Iechyd a Gofal 2.9;<br>Deddfwriaeth RhYİ(DM)                           |                     |                  |          |
| 14      | Mae'n rhaid i'r practis roi disgrifiad i AGIC o sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y safonau iechyd a gofal a chanllawiau proffesiynol perthnasol. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5 a 4.2;<br>Safonau 4.1.1 a 4.1.2 y Cyngor     |                     |                  |          |

| Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Rheoliad / Safon          | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------|---|---------------------------|---------------------|------------------|----------|
|         |   | Deintyddol<br>Cyffredinol |                     |                  |          |
| 14      | Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd ar waith i gynorthwyo'r practis i wneud gwelliannau parhaus i wasanaethau a ddarperir i gleifion.      | Safon lechyd a Gofal 3.3  |                     |                  |          |
| 15      | Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd/y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod hylifau datblygu delweddu pelydr-X yn cael eu newid yn rheolaidd trwy ddefnyddio canllawiau y gall y staff eu deall. | Safon lechyd a Gofal 2.9  |                     |                  |          |
| 15      | Mae'n rhaid i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod rhaglen reolaidd o archwiliadau ansawdd/gradd pelydrau-X yn cael ei sefydlu yn y practis.   | Safon lechyd a Gofal 2.9  |                     |                  |          |
| 15      | Mae'n ofynnol i'r practis roi gwybodaeth i AGIC sy'n dilysu bod staff perthnasol wedi cwblhau   | Safon lechyd a Gofal 7.1  |                     |                  |          |

| Tudalen                                    | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Rheoliad / Safon  | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--|--|---|---------------------|------------------|----------|
|  | hyfforddiant fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth RhYŷ(DM).  |   |                     |                  |          |
| <b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b> |  |   |                     |                  |          |
| 16   | Mae'n rhaid i'r practis roi copi i AGIC o'r rhaglen sefydlu a ddatblygwyd i gynorthwyo unrhyw aelodau staff newydd yn y dyfodol neu staff asiantaeth a allai weithio ar y safle.   | Safon lechyd a Gofal 7.1; Safon 6.6.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |                     |                  |          |
| 16/17                                      | Mae'n ofynnol i'r practis gadarnhau bod hyfforddiant dadheintio wedi ei drefnu ar gyfer yr holl staff perthnasol. Dylid darparu sesiynau hyfforddi hefyd o ran pynciau eraill sy'n berthnasol i swyddogaethau a chyfrifoldebau staff. Mae hyn i ddangos bod y staff yn cael eu cynorthwyo gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dylid gwneud y dyddiadau ar gael i AGIC. | Safonau 6.1.6 a 6.6.5 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol                 |                     |                  |          |
| 17   | Hysbysir y practis am yr angen i hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod   | Safonau lechyd a Gofal 2.1 a 7.1;                                     |                     |                  |          |

| Tudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Rheoliad / Safon                                | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---------|---|---|---------------------|------------------|----------|
|         | gan y staff fynediad at amrywiaeth o bolisiau perthnasol a chyfredol i lywio eu gwaith o ddydd i ddydd. | Safon 6.6 y Cyngor<br>Deintyddol<br>Cyffredinol |                     |                  |          |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....